# 6ed cyfarfod y Grŵp Ecosystemau Morol
## Dydd Mawrth, 06 Tachwedd 2012, 10:50 – 15:30
## Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Yn bresennol | Paul Brazier(CCCG), Gill Bell (MCS) - clywedol, Blaise Bullimore (Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd), Laura Jones (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Jen Kelly (Ceredigion), Alison Palmer-Hargrave (Gwynedd), Judith Oakley (Abertawe / Prifysgol), Martyn Evans (Sir Fynwy), Liz Morris (EcoSol), Pippa Moore (Prifysgol Aberystwyth), Roger Cook (Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru). |
| Ymddiheuriadau | Ben Wray, Sue Burton, Jan Hiddink, Shelagh Malham, Nia Haf Jones, Richard Unsworth |

| | Eitem | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a threfniadau domestig, agenda etc.**<br><br>Cychwyn yn hwyr oherwydd oedi cyn cyrraedd ystafell y cyfarfod. Gwnaethpwyd cyflwyniadau.<br><br>Yn Ebrill 2013 bydd CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru'n dod at ei gilydd i ffurfio corff newydd: Cyfoeth Naturiol Cymru. | |
| **2.** | **Y diweddaraf o'r gweithdy i academyddion a gynhelir gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC).**<br><br>Cyflwynodd PB y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithdy ar gyfer academyddion ar 11 Medi. Roedd yn arfer cael ei chyflwyno i'r grŵp fel papur gan Tracey Lovering. Nodwyd yr amlinelliad o brosiect Strategaeth Ymchwil PBC. Roedd cynnydd ar y papur bylchau mewn tystiolaeth forol wedi cael ei ddal yn ôl oherwydd prinder staff, ond erbyn hyn mae wedi cael ei ystyried ymhellach gan PB (ac eraill yn y cyfarfod hwn, gweler isod) ac wedi cael ei anfon ymlaen at Mike Bruford a Geoff Proffitt. Eglurodd PM sut y mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn gyfle i gydnabod cymaint o ganlyniadau ymchwil sy'n cael lle mewn polisïau a pha mor werthfawr yw hyn wrth ddod ag anghenion ymchwil amgylcheddol ac academyddion at ei gilydd.<br><br>Gofynnodd PM sut yr oedd pobl yn cael eu dewis i gael eu gwahodd i'r gweithdy academyddion. Nodwyd bod datganiadau o ddiddordeb wedi eu gwneud yn 2009/10, ac mae'n bosib bod mwy o academyddion perthnasol a allai gymryd rhan erbyn hyn. Nodwyd y gallai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â Tracey Lovering. | **1) ?? i ymchwilio i'r posibilrwydd o goladu teitlau traethodau hir myfyrwyr yn y Prifysgolion** |

Rhoddwyd enw Dr Rhoda Ballinger (Prifysgol Caerdydd) fel cyswllt gwerthfawr ar gyfer data ffisegol megis hydrodynameg a geomorffoleg.

Mae'r Prifysgolion yng Nghymru wedi coladu rhestr o draethodau hir gan fyfyrwyr a fydd yn ddefnyddiol er mwyn nodi gwaith ymchwil sydd *heb ei weld* o'r blaen. Dylid mynd ar ôl hyn fel ffordd bosibl o 'lenwi bylchau'.

**3. Ystyriaeth bellach o'r daenlen bylchau mewn tystiolaeth.**

**2) Ben Wray i gysylltu â Maggie Hatton-Ellis ynglŷn â chamau gweithredu yng nghronfa ddata camau gweithredu CCGC sy'n ymwneud â'r rhaglen bwlch mewn tystiolaeth. Adrodd yn ôl i'r Grŵp Ecosystemau Morol.**

**3) Roger Cook i anfon cofnodion y prosiect sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd ym Mhrifysgol Bangor. – WEDI GWNEUD**

Treuliwyd y rhan fwyaf o'r cyfarfod yn trafod hyn. Cyflwynodd PB y daenlen bylchau mewn tystiolaeth fel y mae ar hyn o bryd a chafodd y rhestr a oedd wedi'i blaenoriaethu yn rhannol ei blaenoriaethu ymhellach gan y grŵp, i helpu Mike Bruford a Geoff Proffitt i ddatblygu'r daenlen hon gyda thaenlenni grwpiau ecosystemau eraill. I ddechrau, ystyriwyd a ellid diwallu angen am dystiolaeth drwy waith ymchwil. Codwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Mae pob un o'r anghenion tystiolaeth yn y daenlen yn goladiad o wahanol ddarnau o wybodaeth o nifer o ffynonellau a gasglwyd ynghyd dan themâu cyffredin. Maent yn eang iawn, ac ar ôl eu blaenoriaethu, bydd angen eu dadansoddi'n 'gwestiynau ymchwil'. Maent yn dal yn ddefnyddiol fel *anghenion tystiolaeth* cyffredinol er mwyn nodi meysydd gwaith, mewn cysylltiad â chynigion posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol (e.e. yn cyfateb i gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth).
- Mae rhywfaint o gysylltiad wedi bod rhwng cronfa ddata camau gweithredu CCGC a choladu'r anghenion tystiolaeth, ond nododd AP-H fod hyn yn bwysig, er mwyn osgoi systemau cyfochrog sy'n dyblygu gwaith.
- Awgrymodd LM y dylid cael colofn ychwanegol yn y daenlen, yn cynnwys manylion am waith y gwyddys amdano yn y maes hwn, gan gynnwys prosiectau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop / PBC neu CCGC.
- Mae'r prosiect sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop ym Mhrifysgol Bangor (Mike Kaiser) yn debygol o ddarparu gwybodaeth werthfawr am bysgota, effeithiolrwydd dalfeydd ac asesiadau stoc pysgodfeydd masnachol yng Nghymru yn ystod y 2 flynedd nesaf.
- Nodwyd bod y dull Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf yn berthnasol er mwyn rheoli pysgodfeydd masnachol yn ogystal â bod yn berthnasol i'r agenda cynaliadwyedd, ond mae'n debygol y bydd angen ei ailadrodd nifer o weithiau cyn y ceir gwerth dibynadwy ar gyfer Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (RC).
- Mae nifer o'r 'anghenion tystiolaeth' sy'n cael eu disgrifio yn y daenlen yn is-setiau o anghenion tystiolaeth eraill, ehangach, e.e. mae m2.1 yn cynnwys m2.3 ac m2.4. Felly, ar lefel uwch, mae m2.1 yn ddisgrifiad defnyddiol, ond er mwyn datblygu gwell 'cwestiwn ymchwil', yna efallai y byddai m2.3 ac m2.4 yn fwy

defnyddiol.

- Nid oedd newid hinsawdd wedi'i nodi ymhlith y prif flaenoriaethau, ond teimlid bod hyn yn dderbyniol, gan fod nifer o brosiectau ac ymchwilwyr yn astudio effeithiau newid hinsawdd ar yr amgylchedd morol yn barod (lefel y môr yn codi, lliniaru effeithiau, ac asideiddio). Mae anghenion tystiolaeth sy'n ymwneud â newid hinsawdd wedi eu nodi fel blaenoriaeth is.
- Dywedodd BB ei bod yn bosibl bod yr anghenion tystiolaeth, yn rhannol, yn adlewyrchu diffyg cylchredeg ymchwil a data sy'n cael eu cadw'n breifat.
- Mae llawer o fylchau o hyd o ran arolygu a monitro nad ydynt yn cael eu hystyried fel ymchwil. Ar hyn o bryd nid oes rhaglen i gau'r bylchau hyn, er y gallai rhan o gylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru a Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru (coladu proffiliau traethau, a gwybodaeth am baramedrau ffisegol a mathau o amddiffynfeydd ar y glannau yn bennaf) ymdrin â rhai ohonynt.
- Gellir gwneud rhagor o waith i dynnu sylw at gynnwys polisi pob bwlch tystiolaeth.

**4. Adborth o gynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Medi.**

Nid yw'r papur terfynol ar drafodion cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) wedi cael ei ryddhau eto (12/13 Medi). Disgwylir y bydd deunyddiau i'w gweld ar wefan Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru cyn bo hir (http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cynhadledd-Partneriaeth-Bioamrywiaeth-Cymru).

Trafodwyd bod gweithdy yn y gynhadledd wedi adolygu strwythur drafft a gafodd ei awgrymu gan Lywodraeth Cymru, er mwyn helpu i ddatblygu Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru. Nodwyd bod gweithgor morol newydd wedi cael ei awgrymu ond doedd dim byd wedi cael ei gadarnhau.

Nodwyd nad oedd unrhyw bosteri na deunydd arddangos morol. Gan nad oedd gan yr agwedd *forol* lawer o bresenoldeb yn y gynhadledd teimlid bod hwn yn gyfle pwysig i gael mwy o sylw!

**4) PB i anfon manylion pan fyddai'r wefan wedi'i diweddaru.**

**D.S. MEG i drefnu posteri morol ar gyfer y gynhadledd nesaf – yn ymwneud â phrosiectau cydnerthedd ac amrywiaeth ecosystemau efallai?**

**5. Targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42.**

Anfonwyd y targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42 o amgylch y grŵp ar 25 Mehefin, ac maent yn gweithio tuag at dargedau mwy realistig / y gellir eu cyrraedd. Nid oedd llawer o sylwadau gan y grŵp. Mae Ben Wray wrthi ar hyn o bryd yn sicrhau bod targedau a mapiau o gynefinoedd Adran 42 ar gael drwy BARS. Mae rhywfaint o ddiffyg eglurder ynglŷn â sut y bydd prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau yn adrodd drwy BARS.

Mae mapiau cynefinoedd Adran 42 yn dangos bod y cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn i'w cael yn llawer ehangach nag ar safleoedd

**5) Ben Wray i roi rhagor o ddata cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42 ar BARS.**

**6) PB i wirio statws Atlas Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth**

dynodedig a dyma lle gall Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol fod o fudd mawr. Mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau wedi cael eu labelu yn ôl eu perthnasedd ar lefel Leol, Ranbarthol neu Genedlaethol (h.y. tybir bod llamhidyddion yn crwydro i lawer o leoedd ac nad yw'n briodol i bob Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol eu hystyried ar eu pen eu hunain). **2010.**

**6. Y diweddaraf am brosiectau'r Gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau.**

Cyflwynodd PB y wybodaeth ddiweddaraf am adborth y gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau (ynghlwm isod) a'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiect dolffiniaid Risso (gan Fiona Read CCGC).

**7. Prosiect presennol y gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau 'Gwerth cynhyrchiant pysgodfeydd …'.**

Nid oedd Richard Unsworth yn gallu dod i'r cyfarfod, felly ni ellid cael diweddariad llawn.

**8. Y diweddaraf am brosiect Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau 'Morwellt Porth Dinllaen'.**

Rhoddodd AP-H ddiweddariad diddorol am y prosiectau amrywiol sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd ym Mhorth Dinllaen, mewn cysylltiad â'r gwelyau morwellt a'r angorfeydd. Ar wahân i'r prosiect sy'n cael ei ariannu gan y gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth, mae yna hefyd nifer o brosiectau a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan yr MSC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Gwynedd, e.e. arolygon pysgod (SEACAMS), prosiect eco-angorfeydd, arolwg acwstig Asiantaeth yr Amgylchedd, cylchlythyr SeagrassWatch ac arolygon o greithiau angorfeydd gan wirfoddolwyr (Marine EcoSol). Mae rhanddeiliaid wedi bod yn rhan o hyn o'r cychwyn un, ac mae hynny'n rhoi sylfaen dda i'r prosiectau a chefnogaeth gan y gymuned.

Gweler: http://www.penllynarsarnau.co.uk/projects.aspx?lang=welsh

**9. Negeseuon i Gadeirydd cyfarfod y Cadeiryddion, 20 Tachwedd.**

- y diweddaraf am y daenlen anghenion tystiolaeth
- pwysigrwydd integreiddio ffrydiau gwaith ar draws yr asiantaethau (cronfa ddata camau gweithredu, creu cynefinoedd, ac ati)
- mantais cael cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ar y Grŵp Ecosystemau Morol a chefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru.
- y diweddaraf am y fframwaith / strategaeth bioamrywiaeth forol arfaethedig ar gyfer Cymru?

**7) PB i drafod materion morol yn ymwneud â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yng nghyfarfod nesaf y cadeiryddion (gweler 10).**

**10.** **Blaenoriaethau'r Grŵp Ecosystemau Morol ar gyfer y dyfodol.**

Mae cynnwys yr agenda yn adlewyrchu'r gweithgareddau presennol sy'n gwneud defnydd o arbenigedd aelodau'r Grŵp Ecosystemau Morol. Mae camau gweithredu lleol wedi cael eu codi gan ysgrifenyddiaeth PBC fel maes i'w ddatblygu ymhellach. Fodd bynnag, nid oes gan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol arbenigedd yn yr amgylchedd morol, ac mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iawn / amhosibl sefydlu camau gweithredu lleol. Mae ar swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol angen llawer iawn o gefnogaeth, ar ffurf swyddog amser llawn, i helpu i ysgrifennu a deall y Cynlluniau a'u rhoi ar waith. Teimlir bod brwdfrydedd ac awydd i ychwanegu camau gweithredu morol at y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Byddai rhagor o ganllawiau a thempled o gymorth â'r broses hon. Yn yr un modd, gall canlyniadau trafodaethau yng nghyfarfodydd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol helpu'r Grŵp Ecosystemau Morol i ddatblygu rhagor o anghenion tystiolaeth a thargedau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Ers i Aethne adael CCGC, nid yw'r capasiti wedi bod yno i gefnogi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

Fel y Grwpiau Ecosystemau eraill, mae bwlch ar hyn o bryd, nes bydd Adolygiad PBC wedi cael ei gwblhau. Bydd y Grŵp yn dal i symud ymlaen â'i weithgareddau presennol.

**11.** Unrhyw Fater Arall.

**8) Camau gweithredu ar gyfer cysylltiadau i'w hanfon o amgylch yr aelodau**

- GB: cyflwynodd gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ffordd ymlaen ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol. Mae wedi cael ei anfon at yr aelodau.

- GB: cyfeiriodd at gyhoeddiad DEFRA ynglŷn â'r newidiadau i'r modd y gweithredir Erthygl 6 o'r Rheoliadau Cynefinoedd (Newid y dull o reoli pysgodfeydd mewn safleoedd morol Ewropeaidd yn Lloegr). Credaf ein bod yn dal i ddisgwyl am gyhoeddiad ynglŷn â'r cyd-destun Cymreig gan Lywodraeth Cymru?

- ME: cyfeiriodd at y cynnig i Greu Cynefinoedd yng Ngwlad yr Haf fel rhan o'r broses o wneud iawn am golli cynefin (morfa heli) yn ACA Aber Afon Hafren. Mae'n rhan o Raglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd (creu morfeydd heli drwy Gymru gyfan).

- JO: Cyhoeddi y bydd cynhadledd 'ymchwil carbon isel' yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd yr wythnos nesaf.

- JO: Cyhoeddi y bydd cynhadledd flynyddol Cymdeithas Astudiaethau Natur Morol Porcupine yn cael ei chynnal yn Abertawe yn 2013. Croesewir posteri myfyrwyr a sgyrsiau.

- BB: Cyfeirio at symposiwm *'Problems of small estuaries'* sy'n cael ei gynnal ar y cyd gan SEACAMS a IECS, sef y 3ydd mewn

cyfres o symposia o'r fath, ym Mhrifysgol Abertawe. Cynhelir yn Ebrill 2013.

- Cyfeiriodd Roger Cook at prosiect WWF PISCES LIFE. Mae'r manylion wedi cael eu hanfon at yr aelodau.

# Adborth ynglŷn â’r Gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau

**Cyflwynwyd 4 prosiect morol:**

| **Teitl y Prosiect** | **Perchennog y prosiect** |
|---|---|
| Dolffiniaid Risso yng ngogledd Cymru | Cymdeithas Gwarchod Morfilod a Dolffiniaid (WDCS) |
| Gweithrediad ac adfer riffiau biogenig wedi’u ffurfio gan *Sabellaria* | Prifysgol Bangor |
| Gwerth cynhyrchiant pysgodfeydd cynefinoedd morol sensitif (FiPSeM) | Prifysgol Abertawe |
| Morwellt Porth Dinllaen – monitro adfer cynefin | Cyngor Gwynedd |

**Adborth**

Cafwyd ceisiadau gan y rhan fwyaf o’r Grwpiau Ecosystemau am gyllid o’r gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau eleni. Daeth cyfanswm o 79 o geisiadau i law, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gymwys i gael cyllid. Daethpwyd â 51 o brosiectau gerbron y panel asesu terfynol (yn werth cyfanswm o £2 miliwn), ond cafodd 32 prosiect eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid o fewn y swm o £1 miliwn a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Roedd pob un o’r 10 prosiect morol a gyflwynwyd yn dangos budd o ran cynnal cynefinoedd a rhywogaethau morol Adran 42 neu o ran ein dealltwriaeth ohonynt, ond wrth gwrs roedd angen blaenoriaethu’r rhain, a rhai’r grwpiau ecosystemau eraill, er mwyn cyfyngu’r ystod lawn o brosiectau.

---

## Y wybodaeth ddiweddaraf gan WDC ynglŷn â’r prosiect dolffiniaid Risso:

Dyma’r canlyniadau cychwynnol:

- 116 awr o waith ar y tir ar 23 diwrnod
- 93 cipolwg o’r tir ar 135 o lamhidyddion yn ystod ymdrech
- 1 cipolwg o’r tir ar 6 dolffin Risso yn ystod ymdrech
- 1 cipolwg o’r tir ar 5 dolffin trwyn potel yn ystod ymdrech
- 14 cipolwg ar 34 o lamhidyddion heb fod yn ystod ymdrech
- 13 cipolwg ar 43 o ddolffiniaid Risso heb fod yn ystod ymdrech
- 1 cipolwg ar 5 dolffin trwyn potel heb fod yn ystod ymdrech
- 4.5 awr o wylio o gwch ar 2 ddiwrnod
- 1 cipolwg o gwch ar 30+ dolffin cyffredin
- 1 cipolwg o gwch ar 10+ dolffin Risso a 2 ddolffin cyffredin

Mae’n edrych yn debyg hefyd ein bod eisoes yn gallu cyfateb un o dolffin Risso a welwyd y llynedd ac sydd wedi’i weld eto eleni, ond mae angen i ni fynd drwy bob un o’r 362 o luniau a dynnwyd yn ystod ein cyfarfyddiad i gadarnhau hyn a gweld a ellir cyfateb unrhyw rai eraill.

Oherwydd tywydd gwael iawn, ni lwyddodd y criw i wneud cymaint o waith maes ag y byddent wedi hoffi ei wneud.